Briff i greu hunaniaeth brand, llwyfan gwe a deunyddiau dehongli ar gyfer Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE

Cefndir
Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn dymuno penodi unigolyn neu gwmni i greu'r asedau canlynol ar gyfer elfennau dehongli ac ymgysylltu prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE. At bwrpas y Comisiwn hwn, y cleient fydd APCE.

Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE
Wedi ei ariannu ar y cyd gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, mae prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn ceisio diogelu ac adfer coetiroedd brodorol derw mawreddog arfordir Môr yr Iwerydd yng Nghymru. Gan ganolbwyntio ar bedwar safle ar draws gogledd-orllewin a chanolbarth y wlad, mae'r prosiect yn ceisio sicrhau dyfodol hirdymor y cynefinoedd hyn a ddiogelir yn rhyngwladol trwy ymgymryd â llu o ymyriadau ymarferol yn seiliedig ar gadwraeth, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a mwynhad y coetiroedd ymysg rhanddeiliaid . Yn parhau tan 2026, mae partneriaid y prosiect yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (partner arweiniol), RSPB Cymru, Woodland Trust, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

Y Gofynion

1. Hunaniaeth Brand
Creu hunaniaeth brand ar gyfer y Prosiect gan dynnu ysbrydoliaeth o'r cynefinoedd, eu gwerth diwylliannol, a'r lliwiau a'r delweddau maent yn eu cynhyrchu, mae'r cwmni'n gyfrifol am greu brand sy'n ymgorffori calon y coetiroedd mawreddog hyn.

Bydd y pecyn yn cynnwys yr holl waith dylunio a datblygu a bydd yn dangos sut y gellir cymhwyso'r brandio i wahanol ddeunyddiau a llwyfannau digidol, a dylai roi ystyriaeth lawn i ddwyieithrwydd.

Bydd hunaniaeth y brand yn cynnwys:

- Logo
- Arddull
- Ffurfdeip
- Palet lliw
- Canllawiau ar ddefnyddio hunaniaeth y brand gan gynnwys defnydd o'r logo (lliw llawn, graddfa lwyd, lleoliad, ac ati), ffontiau / graffeg a phaletau lliw ategol, 'do's and don'ts', a rhoi enghreifftiau darluniadol o gymhwysiad.

Dylai'r logo fod yn syml, gan dynnu sylw at nodweddion y coetiroedd. Dylai'r logo weithio

mewn amryw o gyfryngau - o'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol i benawdau llythyrau a bathodynnau, a dylent fod yn addas i'w hailgynhyrchu mewn du a gwyn yn ogystal â lliw llawn.

Dylid darparu gwaith celf y brand mewn fformat electronig addas i'w drafod gyda Dylunydd Graffig APCE.

2. Gwefan Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE

Fel rhan o'r tendr hwn, rydym am gynhyrchu gwefan (y Wefan) ar gyfer y Prosiect a fydd ar ffurf *microsite* a all eistedd o fewn gwefannau'r partneriaid perthnasol, gan gynnwys gwefan gyfredol APCE, sef www.eryri.llyw.cymru. Rhagwelir y bydd y wefan hon yn cael ei ailddatblygu yn 2019-20 ac mae'n bosib y bydd y wefan newydd yn wefan Wordpress. Bydd y Wefan yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

Dylai'r Wefan ddefnyddio'r arddull a'r brand sy'n cael ei gynhyrchu fel rhan o'r tendr hwn. Bydd y Cwmni yn gweithio'n agos gyda staff y Prosiect, yn enwedig y Swyddog Ymgysylltu, mewn perthynas â chynnwys y wefan. Bydd staff y Prosiect yn gyfrifol am ddarparu strwythur drafft ar gyfer y Wefan, yn ogystal â chyflenwi testun (yn Gymraeg a Saesneg), ffotograffau ac unrhyw fideo mewn perthynas â'r Prosiect, gan sicrhau bod yr holl ganiatâd angenrheidiol yn eu lle.

Yn ogystal â chynhyrchu'r Wefan, dylai'r tendr gynnwys darpariaeth cymorth dechnegol parhaus mewn perthynas â chynnal a chadw'r Wefan yn ystod oes y Prosiect (Mawrth 2026), gan gynnwys hyfforddiant staff. Dylai'r Wefan felly cael ei ddatblygu a'i gynllunio fel y gall staff y Prosiect ddiweddaru'r Wefan yn unol â hynny, gan gynnwys diweddaru testun, delweddau a fideo, ac ychwanegu penawdau a thudalennau newydd heb orfod dibynnu ar cymorth gan y Cwmni.

3. Deunyddiau dehongli

Bydd y Cwmni yn dylunio'r deunyddiau canlynol i'w defnyddio gan y Prosiect ar gyfer hyrwyddo eu gwaith:

- 2 × daflen wybodaeth (maint arfaethedig A4) gan ddefnyddio'r brand a gynhyrchwyd fel rhan o'r comisiwn hwn. Bydd y daflen gyntaf yn benodol i hyrwyddo'r Coedwigoedd Glaw Celtaidd, tra bydd yr ail yn canolbwyntio ar y pynciau penodol *Rhywogaethau Ymledol* a *Rheoli drwy Bori*. Bydd staff y Prosiect yn darparu cynnwys y taflenni, yn ffynhonnellu delweddau, ac yn sicrhau hawlfraint ac atgynhyrchu diogel;

- Dylunio baneri a phosteri ar gyfer stondin arddangos mewn digwyddiadau, gan ddefnyddio'r brand sy'n cael ei gynhyrchu fel rhan o'r comisiwn hwn. Bydd staff y Prosiect yn darparu cynnwys y taflenni, yn ffynhonnellu delweddau, ac yn sicrhau hawliau hawlfraint ac atgynhyrchu diogel.

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Bydd rhaid i'r ymgeiswyr fod a gallu i ddarparu neu ddangos y canlynol a fydd ar sail i'r broses sgorio:

Matrix Sgorio

Enghreifftiau o waith a wnaed yn flaenorol sy'n debyg i'r hyn a gynigir yn y brîff hwn, yn ddelfrydol ar bynciau sy'n gysylltiedig â chadwraeth natur neu debyg (ond nid yn hanfodol), ynghyd â tystlythyr a ddarperir gan gleientiaid blaenorol mewn perthynas â gwasanaethau cymharol a ddarperir gennych.	10 %
Dealltwriaeth fanwl a thechnegol o wefannau a'r gallu i ddarparu hyfforddiant i staff a chynnig cymorth parhaus.	10 %
Dull / methodoleg yr unigolyn / cwmni gan gynnwys amserlen cyfarfodydd cynnydd.	5 %
Dealltwriaeth o sut i ymgysylltu'n effeithiol â chynulleidfaoedd presennol a newydd drwy gyfathrebu digidol a drwy ddefnyddio dulliau mwy traddodiadol.	5 %
Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.	10 %
Ffi a gynigir	60 %

Amserlen

- 11eg o Ionawr 2019: penodi ymgeiswyr llwyddiannus;
- 15fed o Ionawr hyd at 29ain o Fawrth 2019: datblygu, ar y cyd â staff y Prosiect, ddrafftiau ar gyfer y cynnyrch yn unol â'r briff uchod;
- 29ain o Fawrth hyd at 26ain o Ebrill 2019: datblygu ymhellach cynhyrchion yn dilyn ymgynghoriad ar y drafftiau;
- 26ain o Ebrill 2019: gwaith i'w gwblhau a darpariad y cynhyrchion terfynol i'r Cleient. Gwefan i fynd yn fyw.

Rheolau Tendro

Ni ystyrir tendr unrhyw gwmni sydd yn canfasio aelod neu swyddog o APCE neu unrhyw un sydd yn gweithredu ar ran APCE, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn perthynas â dyfarnu'r cytundeb hwn. Ni ystyrir ychwaith tendr unrhyw gwmni sydd yn:

i. Cytuno i beidio â chyflwyno tendr neu'n cytuno ar swm ei dendr gyda chwmni arall;
ii. Cynnig neu gytuno i dalu neu roi swm o arian yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i unrhyw un wneud rhywbeth neu beidio gwneud rhywbeth mewn perthynas â'r tendr hwn.

Ceidw APCE yr hawl i wrthod unrhyw gynnig.

Rhaid i bob tendr gynnwys y wybodaeth uchod a rhaid ei gyflwyno gyda'r ffurflen ymateb ynghlwm.

Byddwch yn datgan yr uchod trwy arwyddo'r ffurflen ategol a'i dychwelyd fel rhan o'r broses dendro.

Dylid cyflwyno tendrau trwy'r post i'r cyfeiriad isod heb fod yn hwyrach na 12yp ar ddydd Mawrth, 18fed o Ragfyr 2018 mewn amlen anhysbys wedi'i selio.

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol,
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri,
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd
LL48 6LF

Mae'n rhaid datgan ar yr amlen:
Cyfrinachol: Ymgysylltiad Tendr LIFE

Datganiad – Ffurflen Ymateb

Rwy'n awdurdodedig gan y Corff Tendro (a'r holl gwmnïau a chyrff / is-gontractwyr cysylltiedig) i ddarparu'r wybodaeth a roddir yn y cais hwn. Rwy'n datgan, ar ddyddiad arwyddo'r datganiad hwn, bod y wybodaeth a roddir yn gyflawn ac yn gywir i'r gorau o'm gwybodaeth, yn dilyn gwneud ymholiadau rhesymol.

Mae gan y Cleient ein caniatâd i:

- gwblhau pob gweithred angenrheidiol i wirio'r wybodaeth a ddarparwyd; ac i
- basio'r wybodaeth a ddarparwyd i drydyddparti a gomisiyniwyd gan y Cleient ar bwrpas gwerthuso ein ymatebion.

Rwy'n cydnabod:

- ei bod yn drosedd i gynnig unrhyw rodd neu ystyriaeth i gyflogai corff cyhoeddus fel gwobr neu gymhelliad mewn perthynas i wobryo cytundeb cyhoeddus ac y bydd gweithred o'r fath yn rhoi'r hawl i'r Cleient i ddiarddel Corff Tendro o'r broses gaffael; a
- bydd unrhyw sefydlogi pris neu gyd-gynllwynio mewn perthynas i'r prosiect yn rhoi hawl i'r Cleient ddiarddel Corff Tendro o'r broses gaffael a gallai olygu trosedd.

Llofnodwyd:

Enw:

Swydd:

Corff:

Pris y Bid:

Dyddiad:

Noder: Mae'n rhaid i'r datganiad gael ei llofnodi (fel sy'n berthnasol) gan lofnodwr awdurdodedig ar ran y Corff Tendro (ac unrhyw gwmnïau, cyrff neu is-gontractwyr cysylltiedig). Os gwelwch yn dda, dychwelwch y ffurflen hon gyda'ch ffurflen ymateb cyflawn ac atodiadau.

Brief to create a brand identity, web platform and interpretation materials for LIFE Celtic Rainforests Project

Background

Snowdonia National Park Authority (SNPA) wish to appoint an individual or company to create the following assets for the purposes of interpreting and engaging the LIFE Celtic Rainforests project. For the purposes of this commission, the client will be SNPA.

The LIFE Celtic Rainforests Project

Jointly funded by the European Commission and Welsh Government, the LIFE Celtic Rainforests project seeks to protect and restore the majestic native oak woodlands of Wales' Atlantic coast. Focussed on four sites across north-west and mid Wales, the project seeks to secure the long-term future of these internationally protected habitats by undertaking a host of practical conservation based interventions, in addition to raising the awareness and enjoyment of the woodlands amongst stakeholders. Running until 2026, project partners include Snowdonia National Park Authority (lead partner), RSPB Cymru, the Woodland Trust, Natural Resources Wales and Dŵr Cymru / Welsh Water.

The Requirement

1. Brand Identity

To create a brand identity for the Project drawing on inspiration from the habitats, their cultural value, and the colours and imagery they produce, the company are tasked with creating a brand that embodies the heart of these majestic woodlands.

The package will include all design and development work and will illustrate how the branding can be applied to various materials and digital platforms, and should give full consideration to bilingualism.

The brand identity will include:

- Logo
- Styling
- Typefaces
- Colour palette
- Guidelines on the use of the brand identity including logo use (full colour, grey scale, placement, etc), supporting fonts / graphics and colour palettes, do's and don'ts and illustrated examples of application.

The logo should be simple and uncomplicated, drawing in the features of the woodlands. The logo should work in a variety media - from the website and social media to letterheads and badges, and should be suitable to be re-produced in black and white as well as in full colour.

The brand artwork should be provided in a suitable electronic format to be discussed with the SNPA Graphic Designer.

2. LIFE Celtic Rainforests Website

As part of this tender, we wish to produce a website (the Website) for the Project which will be in the form of a *microsite* which can sit within the websites of the respective partners, including the current SNPA website, www.eryri.llyw.cymru. It is anticipated that this website will be re-developed in 2019-20 and it is possible that the new website will be a Wordpress site. The Website will be bilingual (Welsh and English).

The Website should use the style and branding produced as part of this tender. The Company will work closely with the Project staff, namely the Engagement Officer, in relation to the content of the website. The Project staff will be responsible for providing a draft structure for the Website, in addition to supplying text (in both Welsh and English), photographs and any videos in relation to the Project and ensuring all required permissions are in place.

In addition to the production of the Website, the tender should include provision for the on-going technical support in relation to the maintenance of the Website for the duration of the Project (March 2026), including staff training. The Website should therefore be developed and designed in such a way that the Project staff are able to update the Website accordingly including the updating of text, images and videos, and the addition of new headings and pages without the need for referral to the Company.

3. Interpretation materials

The Company will design the following materials to be used by the Project for promoting their work:

- 2 × leaflets (proposed size A4) using the branding produced as part of this commission. The first leaflet will be specific to the promotion of the Celtic Rainforests, whilst the second will focus on the topics of *Invasive Alien Species* and *Grazing Management*. The Project team will provide the content of the leaflets, source images and secure copyright and reproduction rights;

- Design banners and posters to form display stand during events, using the branding produced as part of this commission. The Project team will provide the content of the leaflets, source images and secure copyright and reproduction rights.

What we are looking for

The applicants must be able to provide or demonstrate the following, on which applications will be scored:

Scoring Matrix

Examples of work previously undertaken which is comparable to that proposed in this brief, preferably on topics related to nature conservation or similar (but not essential) along with at least one reference letter provided by previous clients in relation to comparable services provided by you company.	10 %
A detailed and technical understanding of websites and an ability to provide staff training and ongoing support.	10 %
Method / methodology of the individual / team including a schedule of progress meetings.	5 %
Understanding of how to engage effectively with existing and new audiences through digital communications and using more traditional methods.	5 %
The ability to work through the medium of Welsh.	10 %
Proposed fee	60 %

Timescale

- 11th January 2019: appoint successful applicants;
- 15th January to 29th March 2019: develop, in conjunction with Project staff, drafts for the products as per the above brief;
- 29th March – 26th April 2019: refine products further to consultation on the drafts;
- 26th April 2019: work to be completed and final products delivered to the Client. Website to go live.

Tender rules

We will not consider the tender of any company that directly or indirectly canvasses a member of SNPA staff, or anyone acting on behalf of SNPA, in relation to the award of this agreement. Furthermore, we will not consider the tender of any company that:

i. Agrees with another company not to submit a tender, or agree the amount of its tender with another company beforehand;

ii. Offers or agrees to pay or give money, directly or indirectly, to anyone doing something or not doing something in relation to this tender.

SNPA reserve the right to reject any applications.

You will declare the above by signing the accompanying form and returning it as part of the tendering process.

Tenders should be submitted via mail to the below address no later than **12pm on Tuesday, 18th December 2018** in an anonymous, sealed envelope.

Director of Corporate Services,
Snowdonai National Park Authority,
National Park Offices,
Penrhyndeudraeth,
Gwynedd,
LL48 6LF

It must state on the envelope:
Confidential: Tender LIFE engagement

Decloration – Response Form

I am authorised by the Tendering Organisation (and companies and sub-contractors) to provide the information given in this bid. I declare, on the date of signing this statement, that the information given is complete and right to the best of my information, following making reasonable inquiries.

The Client has our permission to:

- complete all necessary actions to verify the information provided; and
- to pass the information provided to third parties (project partners) for the purposes of evaluating the responses.

I recognise:

- it is an offense to offer any donation or consideration to the employee of a public body as a reward or incentive in relation to awarding a contract, and that such an act gives the Client the right to expel Tendering Body from the tendering process; and
- that any price stabilisation or co-plotting in relation to the work will allow the Client to expel a Tendering Body from the procurement process, and may result in a crime.

Signed:

Name:

Job Title:

Company:

Value of bid:

Date:

Note: This statement must be signed (as applicable) by an authorized signatory on behalf of the Tendering Body (and any associated companies, sub-contractors or sub-contractors). Please return this form with your tender.